# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | David Lewis | Adran Etholiadol: | Gorseinon |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliawyd 11 gymhorthfa yn yr etholaeth. O fis Mehefin 2014, cynhelir cymorthfeydd ar y cyd â'r PCSO (Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu) Rachel Draisey.

Yn ystod gwanwyn/haf 2013 a 2014, roeddwn yn llunio cylchlythyr o'r enw Gorseinon Matters ac yn ei ddosbarthu gyda'r papur newydd o'r enw Swansea Matters. Rwy'n bwriadu parhau i wneud hyn flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Roeddwn yn rhan o gylchlythyr a gwefan Cyngor Tref Gorseinon, gan roi cyfle arall i breswylwyr gael gwybod beth sy'n digwydd a sut mae cymryd rhan os ydynt yn dymuno.

Gall preswylwyr Gorseinon gysylltu â fi ar unrhyw adeg trwy lythyr, 46 Heol Cecil, Gorseinon, e-bostio david.lewis2@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 894929. Os nad wyf gartref, gellir gadael neges a byddaf yn ffonio'n ôl o fewn 48 awr.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 5 | / | 8 | 63 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 1 | / | 3 | 33 | % |
| CYFFREDINOL | 35 | / | 46 | 76 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Presenoldeb Cyngor Tref Gorseinon | 12 | / | 14 | 93 | % |

Aelod o bwyllgorau a grwpiau canlynol Cyngor Abertawe:
Grŵp Llafur Abertawe
Panel Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid. Panel Ymchwilio Craffu Gwaith Cymdeithasol yn y Cartref. Byddaf yn ymuno â'r Panel Craffu Lles ym mis Mehefin 2014.
Euthum i gyfarfodydd chwarterol â rheolwyr Swyddfa Dai Ranbarthol Gorseinon.
Euthum i gyfarfodydd chwarterol ag arolygydd yr heddlu a'i swyddogion. Hefyd, Cyfarfûm â PCSO yr ardal yn fisol. Euthum i gyfarfodydd chwarterol â Siambr Masnach Gorseinon.
Roeddwn ac rwyf o hyd yn aelod o is-bwyllgorau canlynol Cyngor Tref Gorseinon: Cynllunio (sylwedydd yn unig), Personél, Parciau, Gwefan, Dyfarnu Cabanau Newydd. Fi yw llywodraethwr yr awdurdod addysg lleol ar gyfer Ysgol Gynradd Gorseinon.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

**Safleoedd Sipsiwn/Teithwyr -** O ganlyniad i lythyr gwybodaeth a luniwyd ac a ddosbarthwyd gennyf i bob aelwyd yng Ngorseinon, roeddwn yn falch o weld dros 1,000 o breswylwyr yng Nghlwb y Gweithwyr, Gorseinon i drafod posibilrwydd safle sipswn/teithwyr yn y dref. Rhoddodd y cyfarfodydd gyfle i bobl Gorseinon gyflwyno'u barn ac roeddwn yn falch o weld arweinwyr y gymuned yn cymryd rhan hefyd.
**Digwyddiadau Gorseinon -** Rwy'n cefnogi 3 digwyddiad mawr Gorseinon – Gorymdaith y Nadolig Gorseinon, Carnifal Gorseinon a Gŵyl Fwyd Gorseinon. Cynhelir y digwyddiadau blynyddol hyn yn y gaeaf, y gwanwyn a'r haf ac yn rhoi hwb mawr i'r dref ac yn helpu i gadw ysbryd y gymuned yn gryf. Rwy'n hynod falch o'r holl bobl sy'n cymryd rhan, sy'n rhoi llawer o oriau i sicrhau bod y digwyddiadau'n parhau i fod yn llwyddiant.
**Ystad Bryngwyn -** Rwyf wedi bod yn gweithio gyda phreswylwyr a Persimmon i sicrhau yr ymdrinnir â'r holl faterion cyn i Persimmon symud oddi ar y safle eleni.
**Adeiladu a Gwella Perthnasoedd Cryfion -** Rwyf wedi bod yn gweithio i sicrhau bod perthnasoedd cryfion yn cael eu meithrin a'u cynnal yng Nghyngor Abertawe, Cyngor Tref Gorseinon, Siambr Masnach Gorseinon ac Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon.
**Gweithio gyda'n gilydd gyda'r heddlu -** Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'n PCSOs ac yn chwarterol ag Arolygydd yr Heddlu ar gyfer Gorseinon.
**Ysgol Gynradd Gorseinon -** Rwyf wedi bod yn gweithio i drefnu i gyngor yr ysgol ymweld â Neuadd y Ddinas yn Abertawe ar gyfer 'trafodaeth fach' a thaith. Rwyf hefyd yn parhau â'm hymgyrch i sicrhau ysgol gynradd newydd ar gyfer Gorseinon.
**Clwb Ieuenctid Gorseinon -** Ymwelais â'r clwb yn ddiweddar ac mae'r cyfleuster penigamp yn parhau i greu argraff dda iawn arnaf. Rydym yn mynd i ddechrau cynnal cyfarfodydd sy'n effeithio ar bobl ifanc yn y cyfleuster hwn i'w helpu i gymryd mwy o ran yn y penderfyniadau.
**Parciau Gorseinon -** Mae mentrau rwyf wedi bod yn rhan ohonynt eleni'n cynnwys helpu i sicrhau arian ar gyfer parc sglefrfyrddio rywle yn y dref ac offer ymarfer corff ym Mharc-y-Werin. Hefyd, cymerais ran yn Ymgyrch Codi Sbwriel Parc Melin Mynach. Caiff offer newydd eu gosod ym Mharc-y-Werin ym mis Awst eleni.
**Gorsaf Betrol Asda -** Rwyf wrthi'n cyfarfod â rheolwyr i sicrhau bod preswylwyr cyfagos yn wynebu'r aflonyddwch lleiaf pan gaiff yr orsaf betrol hon ei hadeiladu. Hefyd, gobeithiaf sicrhau gwelliannau yn yr ardal gyfagos.
**Clwb Llun Porth Gorseinon -** Rwy'n parhau i gefnogi'r elusen hon ac wedi helpu i sicrhau grant mawr ei angen eleni.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**
21/02/2014 - Sgiliau Gwrando'n Astud, 22/01/2014 - Rheolau Trafod,
17/12/2013 - Hyfforddiant Cyflwyniad i'r Cyfryngau, 27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor,
14/10/2013 - Cyn-benderfynu.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**
Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29.05.14 |